## PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 13 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey; W. Gilligan; E.J. Goodjohn; W.A. Hennessy; N.P. Hodges; J. Lynch-Wilson; J.M. Norman a E. Penn.

Aelodau cyfetholedig: L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd); R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru), G. Van der Burgt (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd); ac R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch **(**Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr R. Godfrey a N. Marshallsea a Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) a A. Emmerson (Fforwm Ieuenctid y Fro).

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd W.A. Hennessy fuddiant personol yn Eitemau 5 a 6 ar yr Agenda a Chau Cyfrifon a Chau Cyfrifon Cyfalaf, gan y byddai cyfrifon y Cyngor yn cael eu trafod a chan ei fod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Gan fod hwn yn fuddiant personol ac nid oedd yn rhagfarnu, ni adawodd y cyfarfod.

EITEM AGENDA 3. CWRICWLWM I GYMRU: TAITH I 2022 - DIWEDDARIAD TYMOR YR HAF 2023.

ARGYMHELLWYD – Y dylid diolch i'r Swyddogion a'r gwesteion a wahoddwyd am eu diweddariad trylwyr a deniadol, a nodi'r cyflwyniad.

Rhesymau dros yr argymhellion

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

DS Ers cyhoeddi'r Hysbysiad o Benderfyniad hwn, daethpwyd i sylw'r Gwasanaethau Democrataidd y dylai'r argymhelliad uchod hefyd fod wedi cynnwys diweddariad pellach mewn perthynas â chynnydd y cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg newydd ymhen 12 mis.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL SAFONAU IAITH CYMRU 2022-23 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo'r adroddiad a'r Atodiadau.

Rhesymau dros yr argymhellion

Caniatáu i’r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o Safonau’r Gymraeg.

EITEM AGENDA 5. CAU CYFRIFON 2022/23 (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigir ynddo.

(2) NODI dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ar yr alldro a'r mesurau ariannol a gymerwyd.

(2) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ddyrannu gwarged 2022/23 i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau sy'n cefnogi blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan y Cyngor.

EITEM AGENDA 6. CAU CYFRIFON CYFALAF 2022/23 (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

(2) NODI'r cyllidebau cynllun ychwanegol, fel y'u nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(3) NODI'r sefyllfa gryno o'r newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf fesul cyfarwyddiaeth o'u cymeradwyo gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 i 31 Mawrth 2023, fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

(4) NODI'r Pwerau Argyfwng a gymeradwywyd mewn perthynas â'r llithriad, fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ar y sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn am y flwyddyn ariannol 2022/23.

(2) Hysbysu'r Pwyllgor am y cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd at y Rhaglen Gymeradwy ar gyfer 2022/23.

(3) Hysbysu’r Pwyllgor am y newidiadau i’r Rhaglen Gyfalaf Gymeradwy a osodwyd ar 7 Mawrth 2022.

(4) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y llithriad a gymeradwywyd yn y Pwerau Argyfwng yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2022/23 (CDS) -

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canlyniadau perfformiad Chwarter 4 a’r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23, sy’n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a chyfeirio’r sylwadau canlynol at y Cabinet i’w hystyried:

- Gan fod presenoldeb yn yr ysgol yn fater mor bwysig, gellid ystyried manylion pellach ynghylch y rhesymau pam y mae presenoldeb gwael wedi’i gofnodi, yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion uwchradd, cyn i adroddiad ar bresenoldeb ysgol gael ei gyflwyno i’r Pwyllgor ym mis Medi/Hydref 2023.
- Bod mwy o eglurder yn cael ei ddarparu mewn perthynas â Gweithredu Cynllun Gwasanaeth SL/A018, gan gyfeirio'n benodol at Lyfrgell y Barri ac a yw cwblhau yn cyfeirio at gynllunio wedi'i gwblhau neu weithredu'r gofod gwneuthurwr.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod a sicrhau bod barn y Pwyllgor yn cael ei hystyried gan y Cabinet.